



Annwyl Gwsmer

**Pen-y-Fai Drop & Collect**

**Archfarchnad Pen-Y-Bont ar Ogwr, 9 Rhodfa Treharne, Pen-y-Fai, Pen-y-bont ar Ogwr, CF31 4NT**

Yn anffodus, mae gweithredwr y gwasanaeth wedi penderfynu peidio â pharhau i gynnig Gostyngiad a Chasglu. Felly, nid yw dychweliadau siopa a gesglir wedi'u talu ymlaen llaw bellach ar gael yn y siop hon. Derbyniwch fy ymddiheuriadau am yr hysbysiad hwyr ar y tro hwn.

Bydd pob gwasanaeth Payzone arall yn parhau i fod ar gael.

Byddwn yn eich ysgrifennu eto os oes gennym unrhyw ddiweddariadau am ddarpariaeth gwasanaeth newydd yn eich ardal.

Yn gywir

*Jimmy Patel*

**Jimmy Patel**

**Propositions Manager**

**Network Propositions**

How to contact us:

comments@postoffice.co.uk

postofficeviews.co.uk

FREEPOST Your Comments

Post Office Limited is committed to protecting your privacy. Information about how we do this can be found on our website at [postoffice.co.uk/privacy](https://postoffice.co.uk/privacy)

**To get this information in a different format, for example, in larger print, audio or braille call 03452 66 01 15 or Textphone 03457 22 33 55.**

## **Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned ynghylch newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post**

Mae fersiwn llawn o'r dogfen hon ar gael ar ein Hyb Ymgynghori - [postofficeviews.co.uk](http://postofficeviews.co.uk)

**Rydym wedi ymrwymo i ymgysylltu â'n cwsmeriaid a'u cynrychiolwyr ac i'w cefnogi wrth i ni wneud newidiadau i rwydwaith Swyddfa'r Post. Dilyniir yr Egwyddorion a ganlyn wrth gyfathrebu am newidiadau i'ch cangen Swyddfa'r Post leol.**

Byddwn yn **Hysbysu** – pan fyddwn yn rhoi gwybod i gwsmeriaid am newidiadau ynghylch:

- Oriau agor
- Cau nas cynlluniwyd<sup>1</sup>/ ymyriad a gynlluniwyd i wasanaeth
- Ailagor cangen a gaewyd yn yr un safle
- Agor cangen newydd nad yw'n ymwneud â chau blaenorol
- Lleoliad yn cael ei ddefnyddio gan Swyddfa Bost Symudol mewn cymuned
- Masnachfreinio cangen a Reolir yn Uniongyrchol yn ei safle cyfredol lle nad oes unrhyw newidiadau i'r mynediad i fan gwasanaeth Swyddfa'r Post.

Byddwn yn gosod poster yn y gangen (neu gerllaw os yw hynny'n briodol) er mwyn rhoi gwybod i gwsmeriaid am y newidiadau uchod, gan geisio rhoi pedair wythnos o rybudd. Efallai na fydd modd rhoi pedair wythnos o rybudd ar gyfer newid nas cynlluniwyd ac, os felly, rhoddwn rybudd cyn gynted ag y medrwn. Ar gyfer pob cau byddwn yn cynnwys manylion am y Swyddfeydd Post agosaf a manylion am ein llinell gymorth / ffôn testun i gwsmeriaid.

Rhoddwn wybod i gynrychiolwyr etholedig lleol sydd yn cynnwys ond heb fod yn gyfyngedig i'r Aelod Seneddol, Senedd yr Alban, Senedd Cymru, neu Gynulliad Gogledd Iwerddon, Prif Weithredwr yr Awdurdod Lleol, Cynghorwyr Ward, Y Cyngor Cymuned neu'r Cyngor Plwyf, elusennau dethol, Cyngor ar Bopeth Lleol, Age UK, Disability Action Gogledd Iwerddon a Rhwydwaith Cymunedau Gwledig Gogledd Iwerddon. Hefyd, anogir yr uchod i rannu pob gwybodaeth â grwpiau a sefydliadau lleol a allai, yn eu barn, fod a diddordeb gweithredol mewn newidiadau i'w Swyddfa Bost leol.

**Cafodd yr Egwyddorion hyn eu cytuno â Chyngor ar Bopeth, Consumer Scotland a Chyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon, cyrff gwarchod statudol annibynnol y defnyddwyr.**

**Beth i'w wneud os ydych yn teimlo na ddilyniwyd yr Egwyddorion hyn:**

Cysylltwch â ni, os gwelwch yn dda, fel y gallwn ymchwilio i'ch cwyn. Yn ein hateb byddwn yn esbonio a ydym yn credu ein bod wedi dilyn ein Hegwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned a chewch y manylion cyswllt ar gyfer y corff gwarchod defnyddwyr priodol (Cyngor ar Bopeth, Consumer Scotland neu Gyngor y Defnyddwyr yng Ngogledd Iwerddon) os nad ydych yn fodlon â'n hateb. Bydd y corff gwarchod yn gwneud asesiad annibynnol i weld a ydym wedi dilyn y broses Egwyddorion Ymgysylltu â'r Gymuned (yn hytrach na'r penderfyniad ei hun) ac yn argymhell unrhyw gamau i'w cymryd ynghylch y cwyn.

**Postofficeviews.co.uk**

**[Comments@postoffice.co.uk](mailto:Comments@postoffice.co.uk)**

**FREEPOST Your Comments**

**Ffoniwch: 03452 66 01 15**

**Ffôn Testun: 03457 22 33 55**

<sup>1</sup>Os nad oedd y cau wedi ei gynllunio, adolygir y gwasanaeth a ddarperir yn yr ardal, ar sail y defnydd cyfredol, modelu ac argaeledd unrhyw fodel gwasanaeth addas arall. Gwneir penderfyniad masnachol os ceisir amnewid y gwasanaeth sydd ar gau ac ni fydd yn rhwym wrth ymgynghoriad cyhoeddus.